

BRANWEN
ferch Llŷr
Cyn i Gastell Harlech gael ei adeiladu — mewn cyfnod chwedlonol o angenfilod a hud — aeth cawr anferth i ryfela i ddial cam ei chwaer, Branwen ferch Llŷr.
Dyma ein fersiwn ni o'u stori.
Cadw
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Darluniau ©Pete Fowler 2015


Roedd Bendigeidfran, a oedd yn cael ei alw'n Brân, yn gawr a oedd yn frenin Prydain. Roedd yn byw yn Harlech gyda'i chwaer, ei frawd a'i hanner brodyr.
Un diwrnod braf, roedd Brân yn eistedd ar graig Harlech, yn edrych allan tua'r môr.
Daeth ei chwaer, Branwen, ato — yn ogystal â'i frawd, Manawydan a'i hanner brawd, Nisien.
Ond aeth eu hanner brawd oriog, Efnisien, i ffwrdd ar gefn ei geffyl.
Yn sydyn, ymddangosodd fflyd o longau.
Ar un llong, roedd Matholwch, brenin Iwerddon, yn dal ei darian yn uchel.
Rwy'n dod mewn heddwch!
Cafwyd gwledd i ddathlu ymweliad Matholwch.
Gofynnodd brenin Iwerddon i Brân a gâi briodi Branwen.
Cytunodd Brân.
Efallai y byddai'r briodas yn atal rhyfeloedd rhwng Prydain ac Iwerddon yn y dyfodol.
Dychwelodd Efnisien yn ystod y briodas frenhinol. Roedd yn flin am nad oedd neb wedi dweud wrtho am y briodas.
Mewn cynddaredd, estynnodd ei gleddyf...
... ac anafu ceffylau Matholwch.
Roedd brenin Iwerddon wedi dychryn ac wedi drysu pan glywodd am greulondeb Efnisien.
Casglodd Matholwch ei ddilynwyr ynghyd...
... a dweud wrthynt eu bod yn gadael.


Llwyddodd negeswyr Brân i gyrraedd Matholwch cyn iddo adael, a gofyn iddo beth oedd yn bod.
Dywedodd brenin Iwerddon wrthynt am ei geffylau.
Roedd Brân yn teimlo cywilydd pan glywodd fod Efnisien wedi ymosod ar yr anifeiliaid.
Cynigiodd geffyl i frenin Iwerddon am bob un a oedd wedi'i anafu.
Derbyniodd Matholwch — ond allai o ddim maddau.
Felly rhoddodd Brân bair hud iddo hefyd, a oedd yn gallu dod â'r meirw'n ôl yn fyw.
Derbyniodd Matholwch y pair hud. Aeth ef a Branwen dros y môr i Iwerddon.
Cafodd y pâr priod groeso cynnes.
O fewn blwyddyn, rhoddodd Branwen enedigaeth i fab — Gwern fab Matholwch.
Ond clywodd pobl Iwerddon am yr ymosodiadau ar y ceffylau...
... a mynnu bod Branwen yn cael ei chosbi am drosedd Efnisien.
Anfonwyd Branwen i fyw a gweithio yn y gegin, lle'r oedd yn cael ei churo.
Roedd yno am flynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, daeth yn ffrindiau gyda drudwy, a dysgodd yr aderyn i siarad.


Un diwrnod, clymodd lythyr wrth adain y drudwy, a'i anfon i ddod o hyd i Brân.
Darllenodd ei brawd y llythyr a chasglodd fyddin ynghyd ar unwaith.
Er mwyn osgoi rhyfel, addawodd Matholwch y byddai'n rhoi Iwerddon i'w fab, Gwern. Ond roedd Efnisien yn amau mai tric oedd hynny, a thaflodd y bachgen i dân.
A bu brwydr fawr.
Roedd gan Brân fyddin fawr a grymus...
... ond roedd gan fyddin Iwerddon y pair hud, a oedd yn adfywio milwyr a oedd wedi marw.
Yn llawn edifeirwch, chwalodd Efnisien y pair yn ddarnau mân — gan ladd ei hun wrth wneud hynny.
Byddin Brân enillodd y frwydr yn y pen draw, ond dim ond saith milwr wnaeth oroesi.
Ac, i wneud pethau'n waeth, roedd y cawr wedi cael ei daro yn ei droed gan waywffon wenwynig.
Gan wybod ei fod yn mynd i farw, gorchmynnodd Brân i'w ddynion dorri ei ben i ffwrdd a'i gario i Lundain.
Ond, wnaeth pen Brân ddim marw. Roedd hyd yn oed yn siarad â'i ddynion ar eu taith — yn gyntaf yn Harlech, ac yna ar Ynys Gwales.
Yn y diwedd, ar ôl dros wyth deg o flynyddoedd, claddwyd pen Brân yn y Gwynfryn, yn Llundain.
Roedd Branwen wedi'i brawychu gan farwolaeth ei mab, a bu farw o dorcalon ar ôl y frwydr.
Cafodd ei chladdu ym Medd Branwen, yng nghanol Ynys Môn.